

RHAN 5.8. – PROTOCOL AR GYFER CRAFFU AR BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL SIR GAERFYRDDIN

1. Cyflwyniad

1.1 Cytunwyd ar y Protocol hwn rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Trosedd ac Anhrefn a'r partneriaid perthnasol sy'n rhan o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol fel y nodwyd yn yr atodlen sydd ynghlwm.

1.2 Mae Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006 yn ei gwneud yn ofynnol bod gan awdurdodau lleol bwyllgor trosedd ac anhrefn sydd â phŵer i graffu ar y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn eu hardal, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod lleol a'r Bartneriaeth. Yn Sir Gaerfyrddin cyflawnir y swyddogaethau hynny gan Bwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Trosedd ac Anhrefn, y cyfeirir ato yng ngweddill y Protocol hwn fel y Pwyllgor.

1.3 Er mwyn bod yn effeithiol wrth ymarfer y pwerau newydd hyn, mae'n hanfodol bod yr holl bartneriaid a rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses ac yn rhannu dealltwriaeth gyffredin o nodau craffu.

1.4 Mae'r Protocol hwn yn nodi hawliau a chyfrifoldebau'r partïon dan sylw ac yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol, canllawiau Llywodraeth Cymru ac arferion gwaith da. Gellir diwygio'r ddogfen hon drwy gytundeb rhwng yr holl bartïon er mwyn gwella'r broses graffu yn barhaus.

2. Egwyddorion Craffu yn Sir Gaerfyrddin

2.1 Mae craffu yn Sir Gaerfyrddin yn gadarnhaol, yn wrthrychol ac yn adeiladol. Mae'n cydnabod arfer da ac yn argymhell gwelliannau lle mae'n teimlo y byddai hynny o fudd. Mae craffu yn canolbwyntio ar ganlyniadau gwasanaethau ac yn ceisio ychwanegu gwerth at bob gwasanaeth y mae'n ei ystyried.

2.2 Mae gwella diogelwch cymunedol a lleihau ofn troseddu ac anhrefn ymhlith pobl Sir Gaerfyrddin yn dibynnu ar lawer o ffactorau, yn cynnwys y gwasanaethau a ddarperir mewn partneriaeth gan amrywiol bartneriaid y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Cydnabyddir y cyfrifoldeb hwn a rennir gan y Pwyllgor ac mae wedi'i gynnwys mewn adolygiadau craffu perthnasol blaenorol.

2.3 Bydd yr egwyddorion canlynol sy'n ymwneud â chraffu o gymorth i sicrhau canlyniadau effeithiol ac ychwanegu gwerth:

- * Gellir gwella'r gwasanaethau a gyflwynir orau trwy bartneriaethau rhwng y Cyngor a darparwyr gwasanaeth eraill. Dylai'r cyfrifoldeb hwn a rennir gael ei gydnabod mewn unrhyw weithgaredd craffu.

Dylai gweithgareddau craffu hefyd adlewyrchu blaenoriaethau a rennir, dod o hyd i atebion ar y cyd a bod o fudd i'r ddwy ochr.

- * Mae'n hanfodol bod craffu yn dod â rhywbeth newydd i adolygiadau o'r ddarpariaeth gwasanaethau lleol ac nad yw'n dyblygu'r mathau eraill niferus o reoli perfformiad ac arolygu sy'n bodoli ar gyfer darparwyr gwasanaethau cyhoeddus.
- * Dylai gweithgareddau craffu gael effaith amlwg a chadarnhaol, ac ni ddylid eu cyflawni ond lle bydd adolygiad gwrthrychol gan gynrychiolwyr etholedig yn help i sicrhau cynnydd. Dylai'r broses graffu fod yn rhagweithiol wrth geisio materion i'w harchwilio a fydd yn ychwanegu'r gwerth mwyaf.
- * Rhaid i adroddiadau craffu fod yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn darparu casgliadau ac argymhellion credadwy. Dylai'r broses graffu hefyd fod yn ddiduedd, yn yr ystyr y dylai gael ei gyrru gan y dystiolaeth yn hytrach na chan safbwynt penodol.
- * Dylai ymgysylltu adeiladol a llinellau cyfathrebu clir alluogi llif dwy ffordd o wybodaeth rhwng craffu a phawb sy'n gysylltiedig ag ef, gan gynnwys adborth ar y canlyniadau.

2.4 Ni fydd craffu ar leihau trosedd ac anhrefn yn wirioneddol lwyddiannus ond os bydd sefydliadau allweddol yn gweithio ac yn cydweithio mewn awyrgylch o barch at ei gilydd ac ymddiriedaeth, gyda dealltwriaeth o'i nodau ac ymrwymiad iddynt.

2.5 Rhaid i'r sefydliadau allweddol yn y broses o graffu ar drosedd ac anhrefn fod yn barod i rannu gwybodaeth ac adroddiadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau yn Sir Gaerfyrddin a chyflawni dyletswyddau y byddai disgwyl rhesymol iddynt eu gwneud er mwyn medru craffu ar drosedd ac anhrefn yn llwyddiannus.

2.6 Bydd swyddogion ac aelodau o'r sefydliadau sy'n ymwneud â chraffu ar drosedd ac anhrefn, cynrychiolwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cael eu trin â pharch a chwarteisi bob amser. Bydd materion cyfrinachedd hefyd yn cael eu trin â pharch.

2.7 Bydd craffu ar drosedd ac anhrefn yn agored ac yn dryloyw ac yn annog trafodaeth agored a gonest. Bydd unrhyw berson sy'n ymwneud â chraffu ar drosedd ac anhrefn bob amser yn datgan unrhyw fudd personol sydd ganddo naill ai mewn ymarferiad craffu neu yn ystod cyfarfod o'r Pwyllgor yn unol ag unrhyw gôd ymddygiad y mae gofyn iddo/iddi gydymffurfio ag ef.

2.8 Er ei fod yn gweithio mewn Partneriaeth, mae'r Pwyllgor yn annibynnol ar y partneriaid unigol sy'n ffurfio'r Partneriaeth Diogelwch Cymunedol.

2.9 Bydd craffu ar Drosedd ac Anhrefn yn canolbwyntio ar wella gwasanaethau a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl Sir Gaerfyrddin, a bydd

yn canolbwyntio ar ganlyniadau a fwriedir i helpu i wella diogelwch cymunedol a lleihau ofn troseddau yn Sir Gaerfyrddin.

3. Trefniadau Gweinyddol

3.1 Bydd agendâu, cofnodion ac adroddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu dosbarthu i aelodau o'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn unol â gofynion cyfreithiol y Cyngor mewn perthynas â chylchrediad dogfennau o'r fath i aelodau o'r Pwyllgor. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

3.2 Ymgynghorir â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ynghylch blaenraglen waith craffu ar drosedd ac anhrefn, a bydd yn cael ei hysbysu ymlaen llaw ynghylch adolygiadau lleol am graffu ar drosedd ac anhrefn y bwriada'r Pwyllgor eu gwneud. Bydd hefyd yn cael gwybod am gwmpas yr holl adolygiadau lleol am graffu ar drosedd ac anhrefn a bydd yn cael rhybudd digonol am wahoddiadau i fynyachu cyfarfodydd y Pwyllgor ac yn derbyn unrhyw wybodaeth y mae ei hangen.

3.3 Ymgynghorir â'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ar unrhyw adroddiadau drafft lleol ar drosedd ac anhrefn cyn iddynt gael eu cyhoeddi. Bydd yr adroddiadau terfynol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor ac yn cael eu dosbarthu yn unol â'r gofynion statudol.

3.4 Nid yw craffu ar drosedd ac anhrefn i gael ei ddefnyddio fel gweithdrefn gwynion. Gall astudiaethau achos, fodd bynnag, gael eu defnyddio fel rhan o'r wybodaeth ategol ar gyfer adolygiadau craffu.

3.5 Bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cael ei hysbysu am unrhyw ddatganiadau i'r wasg gan y Cyngor sy'n ymwneud â throedd ac anhrefn lleol cyn iddynt gael eu cyhoeddi.

3.6 Mae cyfarfodydd y Pwyllgor fel arfer yn cael eu cynnal yn gyhoeddus. Fodd bynnag, gall y wasg a'r cyhoedd gael eu heithrio o gyfarfod neu ran o gyfarfod er mwyn i'r Pwyllgor ystyried gwybodaeth eithriedig neu gyfrinachol. Mae cyngor ar gael gan y Tîm Craffu ac Ymgynghoriaeth os gallai'r cyfan o'r dystiolaeth a gyflwynir i'r Pwyllgor, neu ran o'r dystiolaeth honno, syrthio i un o'r categorïau hyn.

4. Y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol

4.1 Bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithio gyda'i gilydd i graffu'n wrthrychol ac yn effeithiol ar drosedd ac anhrefn.

4.2 Bydd y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor ynghylch cynllunio a gweithredu gweithgareddau a strategaethau i

leihau trosedd ac anhrefn er mwyn i'r Pwyllgor ymgymryd â'r adolygiadau craffu sy'n ofynnol.

4.3 Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth gyfrinachol a allai amharu ar weithrediadau gwirioneddol yr heddlu ac nid yw ychwaith yn cynnwys gwybodaeth bersonol, oni bai bod yr unigolyn dan sylw yn rhoi caniatâd i wybodaeth o'r fath gael ei rhyddhau. Bydd ceisiadau am wybodaeth gan y Pwyllgor yn nodi'n glir pam mae angen y wybodaeth honno ac i ba ddiben er mwyn galluogi'r derbynydd/derbynyddion i ganfod yr wybodaeth briodol sydd i'w darparu.

4.4 Bydd y Partneriaid Diogelwch Cymunedol yn ymateb i adolygiadau craffu lleol ar drosedd ac anhrefn o fewn 28 diwrnod wedi iddynt eu derbyn. Gall y Pwyllgor anfon copïau o'r ymatebion i unigolion sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad neu unigolion y mae angen iddynt gael gwybod amdano.

4.5 Cytunwyd ar brotocol a gweithdrefn ar wahân ar gyfer achosion lle bydd cynghorwyr sir lleol yn atgyfeirio materion trosedd ac anhrefn lleol i'r Pwyllgor.

4.6 Bydd y Partneriaid Diogelwch Cymunedol yn enwebu prif berson cyswllt ar gyfer pob adolygiad craffu lleol ar drosedd ac anhrefn ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r Pwyllgor, gan ei fynychu'n bersonol pan gânt wahoddiad.

4.7 Bydd y Partneriaid Diogelwch Cymunedol yn sicrhau bod swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor yn gallu ateb cwestiynau'n agored ac yn cael cymorth priodol gan eu rheolwyr llinell. Bydd y rhai sy'n mynychu cyfarfodydd craffu yn cael syniad o'r amser tebygol y bydd gofyn iddynt gymryd rhan ac am ba hyd y bydd disgwyl iddynt fynychu'r cyfarfod. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn sicrhau bod hyn yn cael ei anrhydeddu cyn belled ag y bo modd.

AELODAETH O BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL SIR GAERFYRDDIN

Mae aelodaeth bresennol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cynnwys cynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol:

Cyngor Sir Caerfyrddin

- + Y Prif Weithredwr (Cadeirydd)
- + Prif Weithredwr Cynorthwyol
- + Cynghorydd o'r Bwrdd Gweithredol
- + Rheolwr Diogelwch Cymunedol
- + Rheolwr y Gwasanaeth Troseddau Ieuencid ac Ataliaeth

Heddlu Dyfed-Powys #

- + Prif Uwcharolygydd Is-adran Sir Gaerfyrddin
- + Cydgysylltydd Trosedd ac Anhrefn

Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys#

- + Cynrychiolydd Awdurdod yr Heddlu

Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru

- + Pennaeth Comand y Sir

Gwasanaeth Prawf Dyfed-Powys*

- + Prif Swyddog Cynorthwyol

Bwrdd Iechyd Lleol Sir Gaerfyrddin#

- + Pennaeth Partneriaethau a Chomisiynu Integredig

Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol*

- + Prif Gwnstabl

Awdurdodau cyfrifol at ddibenion Adran 5 (1) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998

+ Personau a chyrrff cydweithredol at ddibenion Adran 5(2) o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998